**ADRODDIAD I'R CABINET**
24.11.15

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Mair Rowlands

**Pwnc:** Adroddiad ar waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus a'r Polisi Corfforaethol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus.

**Swyddog cyswllt:** Morwena Edwards

---

**Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad**

Gofynnir i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad gerbron ar waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus. (Atodiad 1)

Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r Polisi Corfforaethol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus sydd wedi ei adolygu a'i ddiweddaru. (Atodiad 2)

---

**Cyflwyniad**

Fel mae'r aelodau yn ymwybodol, mae'r cyfrifoldeb i ddiogelu plant ac oedolion bregus yn un o gyfrifoldebau pwysicaf y Cyngor. Ers sawl blwyddyn bellach, mae'r Cyngor wedi adnabod y maes pwysig hwn fel maes blaenoriaeth ac wedi adolygu trefniadau corfforaethol er mwyn sicrhau bod trefniadau cadarn ac addas yn eu lle.

Mae Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus wedi ei sefydlu ers bron i 3 blynedd bellach ac yn rhoi sylw penodol i faterion corfforaethol o ran diogelu. Mae'r blaenoriaethau yma hefyd wedi eu hymgorffori o fewn Cynllun Strategol y Cyngor.

Bwriad yr adroddiad gerbron yw edrych yn ôl a'r beth sydd wedi ei gyflawni dros y cyfnod Ebrill 2014 - Mawrth 2015 yn ogystal â barn archwilwyr allanol ple'n berthnasol. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o waith y Panel ar gyfer eleni. (Er gwybodaeth - mae bwriad cyflwyno adroddiad o'r fath ar gyfer 2015/16 yn ystod mis Mai 2016.)

Yn ogystal â'r adroddiad o waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus, mae hefyd Polisi Corfforaethol Diogelu Plant ac

Oedolion Bregus gerbron ar gyfer ystyriaeth a chymeradwyaeth. Mae'r Polisi hwn yn gosod allan y trefniadau sydd mewn lle ar gyfer diogelu o fewn y Cyngor ac mae'r Polisi wedi ei hadolygu a'i diweddaru ac felly angen cymeradwyaeth o'r newydd. Nid oes newidiadau sylweddol o fewn y Polisi, yn hytrach mae man ychwanegiadau a chywiriadau i adlewyrchu newidiadau o fewn y Cyngor.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Credir i'r adroddiad grynhoi gwaith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus yn gywir a theg ac mae'n hanfodol bod aelodau'r Cabinet yn ymwybodol o waith y Panel ar Ddiogelu ac yn gallu bodloni eu hunain bod y Panel wedi ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen yn drylwyr a chydwybodol.

Mae cymeradwyo Polisi Corfforaethol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus yn gyfrifoldeb ar y Cabinet ac mae gwneud hyn yn rheolaidd yn dilyn addasiadau yn sicrhau trefniadau cadarn o fewn y Cyngor ar gyfer y maes diogelu.

**Ystyriaethau perthnasol**

Dim i'w adrodd

**Camau nesaf ac amserlen**

Byddwn yn adrodd i'r Cabinet a'r gynnydd yn erbyn gwaith y Panel o fewn y maes diogelu yn rheolaidd o fewn y drefn rheoli perfformiad, ond mae bwriad parhau i adrodd yn flynyddol mewn adroddiad cynhwysfawr o'r maes am y flwyddyn a fu, bob mis Mai.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Mae'r maes diogelu yn amlwg yn un pwysig y mae'n rhaid sicrhau bod gan y Cyngor drefniadau cadarn ar ei gyfer. Mae'r adroddiad yn adrodd ar y gwaith caled sydd wedi od yn digwydd yn y maes hwn ac rwy'n ymwybodol y bydd y cynnydd hwn yn cael ei graffu hefyd gan y Pwyllgor

Craffu Gwasanaethau yn ei gyfarfod nesaf. Mae'n allweddol yn awr bod symud ymlaen ar weithredu'r cynlluniau hyn fel bod modd gwneud yr hyn y mae adroddiad y Panel Strategol yn son amdano a "gweld ffrwyth y gwaith yma erbyn y tro nesaf fydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Mai".

**Y Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yn rhoi cyfle priodol i'r Cabinet gael sicrwydd ynglŷn â'r trefniadau a'r cynnydd sydd yn digwydd yn y maes pwysig yma. Mae hefyd yn briodol fod Polisi Corfforaethol yn cael ei adolygu gan y Cabinet oherwydd ei le canolog yn y gyfundrefn diogelu.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Derbyniwyd cadarnhad fod y Polisi Diogelu Corfforaethol, a'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus, yn anelu i weithredu o fewn adnoddau cyfredol yr adrannau perthnasol, a does dim argymhelliad nac unrhyw agwedd o'r Polisi yma sy'n dibynnu ar gael adnodd ychwanegol (h.y. dim mwy, uwchben y dyraniad £60,000 un-tro sy'n y Cynllun Strategol a fabwysiadwyd gan y Cyngor Llawn ar 09/07/2015).

---

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Adroddiad ar waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus.

Atodiad 2 - Polisi Corfforaethol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus.

**Dogfennau Cefndirol**

Dim.